ROBERTS, JOHN ('Minimus'; 1808 - 1880), Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur

Enw: John Roberts
Ffugenw: Minimus
Dyddiad geni: 1808
Dyddiad marw: 1880
Priod: Elizabeth Roberts (née Milnes)
Rhiant: Richard Roberts
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Derwyn Jones

Ail fab Richard Roberts, masnachydd nwyddau llong (ship's chandler) yn Lerpwl. Etholwyd ef yn flaenor (1827?) yn eglwys M.C. Bedford Street, dechreuodd bregethu yn 1830, ac fe'i hordeiniwyd yn 1857 yn Sasiwn Dolgellau. Priododd yn 1849, ag Elizabeth Milnes o Groesoswallt (bu farw 1865). Daeth ei chwaer ieuengaf, Ann, yn ail wraig i'r Parch. David Charles (1803 - 1880). Tra'n parhau i weithio i gwmni llongau, yn 1840 daeth yn ysgrifennydd di-dâl i gymdeithas genhadol y Methodistiaid Calfinaidd a oedd newydd ei ffurfio (gweler Thomas Jones, 1810 - 1849; o 1861 hyd farwolaeth ei wraig trigai ger yr Wyddgrug.

Yn 1866 torrodd ei gysylltiad â Chenhadaeth Dramor y M.C. a symudodd i Gaeredin yn ysgrifennydd y 'Scottish Sabbath Observance Society'. Bu farw yno 6 Ionawr 1880, ac fe'i claddwyd yng nghladdfa S. James, Lerpwl. Gadawodd un ferch ar ei ôl.

Ysgrifennodd lawer i gyfnodolion y M.C., e.e., *Y Traethodydd* ac *Y Drysorfa* - bu'n golygu 'r olaf yn 1846, ac ar ôl hynny yn gydolygydd â Roger Edwards hyd 1852. Gyda Richard Williams (1802 - 1842) golygodd *Y Pregethwr*, 1835-8. Cydweithiodd â John Jones (1790 - 1855) ar gofiant John Elias, ac ysgrifennodd emynau hefyd ac y mae un ohonynt sy'n dechrau â'r geiriau 'Bywha dy waith ...', a ymddangosodd gyntaf yn *Y Drysorfa* 1840, yn cael ei ganu heddiw.

Awdur

Derwyn Jones

Ffynonellau

Y Drysorfa, 1840 ac 1880

Y Goleuad, 17 Ionawr 1880

J. Hughes Morris, *Hanes Methodistiaeth Liverpool* (Lerpwl 1929-1932)

a *Hanes Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Califinaidd Cymreig hyd ddiwedd y flwyddyn 1904* (Caernarfon 1907)

John Roberts, *Lizzi Milnes; a Memoir of a Beloved Wife, with selections from her letters* (Caeredin 1876)

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q56710503

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.